

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.03.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

Presennol: Ian Williams (Cadeirydd), Huw Davies, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Louise Hughes (Cyngorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Malcolm Hills, Dylan Thomas, John Griffiths.
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13.02.19 fel rhai cywir.
Cynnig – Keith Carroll **Eilio** – Geraint Edwards **Arwyddwyd** – Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (13.02.19):**

- a) **"Rhwystrau Diogelwch/wal derfyn Network Rail ar y ffordd rhwng Llwyngwrl i Friog"** - cadarnhad gan Liz Saville Roberts ei bod wedi cysylltu â Sam Hadley, Network Rail, ynglyn a'r mater yma.
- b) **Network Rail** – Sam Hadley wedi cynnig cyfarfod aelodau o'r Cyngor Cymuned i drafod y sefyllfa.
Penderfyniad → trefnu ymweliad safle – Ian Williams, Huw Davies a Geraint Edwards i gwrdd swyddogion NWR.

Materion Cymunedol Cyngor Gwynedd

- a) Biniâu glas ailgylchu ger St George's/Gwastadgoed → nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau eu bod am wneud ymweliad safle ac yn gobeithio gallu gosod rac ailgylchu yna.
- b) Sianelu dŵr / cylfat wedi blocio ar riw Gwastadgoed → nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddent yn gwneud y gwaith yma yn fuan.

5. **Gohebiaeth:**

- a) Torri gwair y Cae Chwarae – 2019/20 - pris wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd = £790.00 + VAT
Penderfyniad → pawb yn gytûn i dderbyn y pris yma. Cysylltu â Clive Jones i ofyn iddo drefnu'r gwaith.
Cynnig: Huw Davies **Eilio:** Kevin Goodchild.
- b) Aelodaeth Un Llais Cymru – 2019/20 = £126.00
Penderfyniad → pawb yn cytuno i adnewyddu'r aelodaeth.
- c) Mynwentydd plwyf Llangelynnin – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd = £500.00
- d) Y Ganolfan – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd = £1,000.00
- e) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2019.
- f) Derbyn gwybodaeth gan CND Cymru ynglyn a "dim gwastraff niwclear i gael ei gladdu yng Nghymru"
Penderfyniad → ateb yn datgan na fydd ein cymuned yn gwirfoddoli i gynnal dymp gwastraff niwclear tanddaearol.
- g) Derbyn gwybodaeth – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn bwriadu canola holl wasanaeth fasciwlwr brys yn Ysbyty Glan Clwyd.
- h) Gwahoddiad i gyfarfod gyda Heddlu Gogledd Cymru a Safonau Masnach Gwynedd i godi ymwybyddiaeth o dactegau sgamiau – 15.05.19 ym Mhorthmadog
Penderfyniad → Archebu ticedi i Ian Williams a Louise Hughes.
- i) Persbecs i'r Hysbysfwrdd – pris wedi ei dderbyn gan Mr Hawkins i gyflenwi a ffitio = £120.00 + VAT
Penderfyniad → derbyn y pris a chynnig y gwaith i Mr Hawkins a gofyn iddo am gopi o'i yswiriant.
Cynnig: Kevin Goodchild **Eilio:** Keith Carroll.

6. Materion Cynllunio:

- a) **NP5/69/119C - Tŷ Croes Isaf, Rhoslefain** - Codi estyniad deulawr i gynnwys manau parcio o dan do ar y llawr gwaelod ac anecs preswyl ar y llawr cyntaf
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc.
- b) **NP5/69/16C – Uned dofednod - Fferm Castell Mawr, Llanegryn** - Gwybodaeth a dogfennau ychwanegol wedi eu derbyn ynglŷn â'r cais yma
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc.

7. Adroddiad Ariannol: Derbyniwyd Adroddiad Mis Chwefror 2019 yn gywir.

Cynnig – David Griffiths **Eilio** – Geraint Micah **Arwyddwyd** – Ian Williams.
Adolygiad ariannol wedi ei wneud.

- a) **Archwiliad Mewnol ar gyfrifon y Cyngor Cymuned - 31.03.19:** cadarnhad wedi ei dderbyn gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd eu bod yn fodlon ymgymryd â'r gwaith
Penderfyniad → llythyr ymrwymiad/penodi i'w anfon i Luned Fôn Jones, Cyngor Gwynedd.
- b) **Hawliau Tramwy Cyhoeddus** – derbyn Manylion Taliad gan Gyngor Gwynedd → **£233.14** i'w dalu i'r Cyngor Cymuned am gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus 2018-19.
- c) Siec 100746: Rhent y Ganolfan am y flwyddyn nesaf – 2019/20 = £100.00
- d) Siec 100747: Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd = £25.00
- e) Siec 100748: Tenovus Gofal Canser, Gogledd Cymru = £25.00
- f) Siec 100749: Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Gogledd Cymru = £25.00
- g) Siec 100759: Aelodaeth Un Llais Cymru = £126.00

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Derbyn adroddiad Louise Hughes.

10. Unrhyw Fater Arall:

- a) **Prisiau am dorri'r llwybrau:** Llwybr y Perthi a Llwybr y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi
Cof Golofn = Mis Mai, Gorffennaf, Medi a Thachwedd
Mynwent y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi
Penderfyniad → Pawb yn gytûn i yrru "sbec", a gofyn am bris gan Mr G Micah, Mr T Parsons, Mr C Roberts, Mr J W Lewis a Chyngor Gwynedd. Gofyn am gopi o'i hyswiriad hefyd.
- ❖ **Geraint Micah wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen, ac wedi gadael y cyfarfod gan ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, tra'r oedd yr aelodau yn trafod pwy i ofyn am bris.**
- b) **Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned** - adolygiad wedi ei wneud o'r eitemau ar gyfer yswiriant 2019/20.
Dyddiad adnewyddu'r polisi = 01/06/19. Dim newidiadau.
Broceriaid Yswiriant y Cyngor Cymuned = **BHIB**.
- c) **Cofrestr Asedau'r Cyngor Cymuned ar gyfer Yswiriant wedi ei adolygu.**
- d) **Asesiad Risg Blynnyddol y Cyngor wedi ei adolygu ar gyfer 2019 – 20.**

Gan nad oes Cyfarfod fel arfer ym Mis Ebrill, awgrymodd Ian Williams gael “pwyllgor bach” sef Y Cadeirydd, Is Gadeirydd, ag un aelod arall o’r Cyngor Cymuned, i drafod materion brys:-

- *Ceisiadau Cynllunio’r Parc Cenedlaethol Eryri*
- *Derbyn prisiau torri gwair y llwybrau cyhoeddus, Cof Golofn a Mynwent y Crynwyr*
- *Cyfarfod safle gyda swyddogion Network Rail i drafod y rhwystrau diogelwch ar yr “Allt” ger Friog.*

Cofnodion y cyfarfod ag ymweliad safle NWR a gynhaliwyd Dydd Iau - 18.04.19

Presennol: Ian Williams (Cadeirydd), Huw Davies (Is Gadeirydd), Geraint Edwards, Glenda Edwards (Clerc).

- 1. Cafwyd ymweliad safle ar yr “Allt” ger Friog, gyda swyddogion Network Rail, Mr Chris Johns a Mr Rhys Willard, i drafod y gwaith sydd angen ei wneud ar y rhwystrau diogelwch, a’r wal derfyn yma.**

Cadarnhaodd swyddogion NWR eu bod yn gobeithio y byddai’r gwaith yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol yma a’u bod yn gobeithio cychwyn y gwaith rhywbryd yn ystod y gaeaf – 2019/20.

- 2. Cais Cynllunio: NP5/69/45A - Tŷ Ar y Bryn, 3 Gwastadgoed Isaf, Llwyngwril**

Gosod drysau a ffenest newydd ar y llawr gwaelod isaf

Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau i’w cyflwyno i’r Parc Cenedlaethol Eryri.

- 3. Prisiau am dorri’r llwybrau:** Llwybr y Perthi a Llwybr y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi
Cof Golofn = Mis Mai, Gorffennaf, Medi a Thachwedd
Mynwent y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi

Dau bris yn unig wedi eu derbyn → Cyngor Gwynedd = £773.70 + VAT a Geraint Micah = £480.00 + VAT.

Penderfyniad → derbyn pris Geraint Micah a cynnig y contract iddo.

Cynnig: Ian Williams **Eilio:** Huw Davies.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf (AGM) - Nos Fercher - 08.05.19 - am 7 o’r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**